Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru
National
Assembly for
Wales

## Newid Enw a Nifer y Staff

20 Tachwedd 2018

**Cais am Wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 24 Hydref, pan wnaethoch ofyn:

1. *A oes unrhyw astudiaethau wedi cael eu gwneud o ran cost ailfrandio Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Senedd Cymru o ran arwyddion, deunydd ysgrifennu, deunydd darllen, ac ati?*
2. *Beth yw amcangyfrif cost gyffredinol i ailfrandio Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Senedd Cymru o ran arwyddion, deunydd ysgrifennu, deunydd darllen, ac ati?*
3. *Faint o staff sydd wedi'u cyflogi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar hyn o bryd naill ai drwy gontractau uniongyrchol neu gontractau asiantaeth.*
4. *Beth yw cyfanswm gwariant ar gyflogau ar gyfer cyfanswm y staff a gyflogir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar hyn o bryd naill ai drwy gontractau uniongyrchol neu gontractau asiantaeth.*
5. *Faint o staff sydd wedi'u cyflogi gan y 60 Aelod Cynulliad yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ar hyn o bryd naill ai drwy gontractau uniongyrchol neu gontractau asiantaeth.*
6. *Beth yw - ar hyn o bryd - gyfanswm gwariant ar gyflogau ar gyfer cyfanswm y staff a gyflogir gan y 60 Aelod Cynulliad yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ar hyn o bryd naill ai drwy gontractau uniongyrchol neu gontractau asiantaeth.*

Gweler ein hymateb isod:

1. Mae'r ddogfen ymgynghori a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2016 yn darparu peth gwybodaeth am oblygiadau ariannol posibl. Gan fod y wybodaeth hon eisoes wedi'i chyhoeddi, mae'r rhan hon o'ch cais yn ddarostyngedig i adran 21 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 sy'n eithrio gwybodaeth sydd eisoes ar gael yn rhesymol mewn ffyrdd eraill h.y. eisoes wedi'i chyhoeddi ar ein gwefan. Mae peth gwybodaeth am

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@cynulliad.cymru
Information-request@assembly.wales

gostau ychwanegol amcangyfrifedig wedi'u cyhoeddi fel rhan o Gyllideb Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2019-20.

2. Mewn llythyr gan y Llywydd at Aelodau'r Cynulliad, nododd y Llywydd ei bwriad y dylai'r newid enw a gyflwynir yn y Bil fod yr enw uniaith "Senedd". Bydd y cynnig hwn yn amodol ar ystyriaeth fanwl gan y Cynulliad wrth i'r Bil fynd drwy'r Cynulliad.  Cyhoeddir amcangyfrif manwl o'r costau sydd ynghlwm â deddfu i ailenwi'r Cynulliad yn Senedd ochr yn ochr â'r Bil, pan gaiff ei gyflwyno ddechrau'r flwyddyn nesaf, fel sy'n ofynnol gan Reolau Sefydlog y Cynulliad.  Bwriedir i'r ddogfen hon gael ei chyhoeddi yn y dyfodol ac mae wedi'i heithrio rhag cael ei datgelu o dan adran 22 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.
   Bydd holl ddogfennaeth y Bil yn cael eu cyhoeddi ar dudalen gwe rhaglen Diwygio'r Cynulliad.  Gallech hefyd gofrestru i gael diweddariadau dros e-bost ar raglen Diwygio'r Cynulliad a chewch eich hysbysu'n awtomatig am pryd caiff y Bil ei gyflwyno (yn ogystal â diweddariadau mewn perthynas â diwygio'r Cynulliad).
3. Mae adroddiad blynyddol 2017-18 (tudalen 116) yn darparu gwybodaeth, wedi'i dadansoddi yn ôl categorïau o staff a gyflogir, staff sydd ar secondiad a staff asiantaeth.  Gan fod y wybodaeth hon eisoes wedi'i chyhoeddi, mae'r rhan hon o'ch cais yn ddarostyngedig i adran 21 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 sy'n eithrio gwybodaeth sydd eisoes ar gael yn rhesymol mewn ffyrdd eraill h.y. eisoes wedi'i chyhoeddi ar ein gwefan.
4. Unwaith eto, mae hon yn wybodaeth a gyhoeddir ar dudalen 124 o'r adroddiad blynyddol.  Tabl o fanylion cyflogau staff a chostau cysylltiedig  Gan fod y wybodaeth hon eisoes wedi'i chyhoeddi, mae'r rhan hon o'ch cais yn ddarostyngedig i adran 21 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 sy'n eithrio gwybodaeth sydd eisoes ar gael yn rhesymol mewn ffyrdd eraill h.y. eisoes wedi'i chyhoeddi ar ein gwefan.
5. Ar ddiwedd mis Medi 2018, roedd 253 o Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad yn gyflogedig.
6. Mae tudalen 146 o'r adroddiad blynyddol yn darparu'r wybodaeth hon, wedi'i dadansoddi i dri chategori: staff parhaol, staff dros dro ac asiantaeth, a staff ar secondiad. Gan fod y wybodaeth hon eisoes wedi'i chyhoeddi, mae'r rhan hon o'ch cais yn ddarostyngedig i adran 21 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 sy'n eithrio gwybodaeth sydd eisoes ar gael yn rhesymol mewn ffyrdd eraill h.y. eisoes wedi'i chyhoeddi ar ein gwefan.

Yn gywir,

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Ystyriwyd eich cais yn unol â’r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i’r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Rhowch wybod imi os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dilynwch y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i’ch cais?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae'r Cynulliad wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth yn:
Ceisiadau-gwybodaeth@cynulliad.cymru neu'n ysgrifenedig i
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae’r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i’r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â’r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad isod:

Information Commissioner’s Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF